# AWDURDOD TÂN GOGLEDD CYMRU

# CYNLLUN AR GYFER TALU LWFANSAU I AELODAU

Mae Awdurdod Tân Gogledd Cymru, wrth gyflawni'r pwerau a roddir gan Reoliadau Awdurdodau Lleol (Lwfansau i Aelodau Awdurdodau Tân) (Cymru) 2004, trwy hyn yn gwneud y Cynllun canlynol.

1. Bydd y Cynllun hwn mewn grym o 29ain Medi 2004 ymlaen.

2. Ni chaiff Lwfans Awdurdod Tân, Lwfans Cadeirydd neu Is-Gadeirydd Awdurdod Tân na chostau teithio neu gynhaliaeth eu talu i ddirprwyon.

3. Yn y Cynllun hwn:

   Ystyr "yr Awdurdod" yw Awdurdod Tân Gogledd Cymru.

   Ystyr "person annibynnol" yw rhywun, heblaw am Aelod o'r Awdurdod, a benodir i wasanaethu ar Bwyllgor Safonau'r Awdurdod (yn unol â Rheoliadau Pwyllgorau Safonau (Cymru) 2001) a wnaed dan Adran 53, Deddf Llywodraeth Leol 2000.

   Ystyr "Aelod" yw Aelod o Awdurdod Tân Gogledd Cymru.

   Aelodau'r "Grŵp Gweithredol" yw'r Prif Swyddog Tân; y Dirprwy Brif Swyddog Tân; y Prif Swyddog Tân Cynorthwyol (Cynnal y Gwasanaethau); y Prif Swyddog Tân Cynorthwyol (Cyflwyno'r Gwasanaethau) a'r Prif Swyddog Cynorthwyol (Gwasanaethau Corfforaethol).

   Ystyr " Rheoliadau" yw Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Lwfansau i Aelodau Awdurdodau Tân) (Cymru) 2004.

   Ystyr "blwyddyn" yw'r 12 mis sy'n gorffen ar 31 Mawrth.

4. **Lwfans Awdurdod Tân**

   4.1 Bydd Lwfans Awdurdod Tân yn cael ei dalu i bob Aelod fel y dangosir yn Atodlen 2. Caiff ei dalu drwy randaliadau misol, ac mae'n agored i Dreth Incwm a chyfraniadau Yswiriant Cenedlaethol, lle bo'n berthnasol.

5. **Lwfansau Cadeirydd Awdurdod Tân ac Is-Gadeirydd Awdurdod Tân**

   5.1 Bydd Aelodau sy'n dal swyddi Cadeirydd ac Is-Gadeirydd yn derbyn y Lwfansau a ddangosir yn Atodlen 2.

   5.2 Caiff y Lwfansau eu talu trwy randaliadau misol, ac maent yn agored i Dreth Incwm a chyfraniadau Yswiriant Cenedlaethol, lle bo'n berthnasol.

DRAFT

## 6. Teithio a Chynhaliaeth

6.1 Telir costau teithio a chynhaliaeth am y dyletswyddau cymeradwyedig a gyflawnir gan Aelod, fel a ddangosir yn Atodlen 1, ac fel y diwygir o dro i dro gan yr Awdurdod.

6.2 Bydd y symiau y gall Aelodau eu hawlio am gostau teithio a chynhaliaeth yn unol â'r graddfeydd a fabwysiedir gan yr Awdurdod o dro i dro, fel y dangosir yn Atodlen 2, ac fel y diwygir o dro i dro gan yr Awdurdod.

6.3 Mae angen derbynebau TAW go iawn ar gyfer treuliau, gan gynnwys tocynnau parcio, er mwyn i'r Awdurdod ddilysu ceisiadau a chael y TAW yn ôl. Dylai Aelodau ofyn am y rhain a'u cadw, a'u hamgáu gyda'u ffurflenni cais am gostau. Gallai peidio â chyflenwi derbynneb arwain at beidio â thalu hawliad.

6.4 Bydd yr Awdurdod yn ad-dalu gwir gostau tocynnau trên dosbarth cyffredin neu'r rhai rhataf tebyg. Ni chaniateir teithio ar y trên yn y dosbarth cyntaf ond pan fydd y gost yn rhesymol o'i chymharu â'r tocyn trên dosbarth cyffredin.

6.5 Pan fydd Aelodau'n teithio gyda thrên, rhaid iddynt yn y lle cyntaf gysylltu â'r Swyddog Cyswllt Aelodau a fydd yn ymorol am docyn am y pris mwyaf darbodus. Os oes raid i'r Aelodau brynu eu tocynnau trên eu hunain, dylent gynnwys y dderbynneb neu'r tocyn pan fyddant yn hawlio ad-daliad.

6.6 Caiff teithio gyda thrafnidiaeth gyhoeddus ei annog ar gyfer teithiau pellter hir, ond gellir teithio mewn car preifat pan fo hyn yn gynt. Bydd yr Awdurdod yn talu'r raddfa filltiroedd car priodol a ddangosir yn Atodlen 2 nad yw'n uwch na swm sy'n gyfwerth â thocyn trên dosbarth cyffredin oni bai fod defnyddio'r car am yr holl daith wedi cael ei gymeradwyo gan aelod o'r Grŵp Gweithredol.

6.7 Gellir hawlio cost tacsi pan fo raid teithio AR FRYS neu pan nad oes trafnidiaeth gyhoeddus addas ar gael. Dylid dangos derbynebau.

## 7. Personau Annibynnol

7.1 Nid yw'r Cynllun hwn yn darparu talu lwfans blynyddol i berson(au) sydd wedi eu penodi'n berson annibynnol, ond gallant hawlio'r lwfans teithio a amlinellir yn Atodlen 2.

## 8. Ymwrthod

8.1 Gall Aelod ymwrthod â rhan neu'r cyfan o Lwfans Awdurdod Tân, Lwfans Cadeirydd neu Is-Gadeirydd Awdurdod Tân. Rhaid ymwrthod yn ysgrifenedig i Glerc yr Awdurdod Tân a rhaid nodi dyddiad yr ymwrthodiad. Gellir diddymu hysbysiad o ymwrthodiad ar unrhyw adeg trwy anfon hysbysiad ysgrifenedig pellach at y Clerc. Ni ellir ôl-ddyddio unrhyw ddiddymiad yn gynt na dyddiad yr hysbysiad pellach.

DRAFT

9. **Cyfyngiadau Amser ar gyfer gwneud cais am gostau**

9.1 Dylai Aelodau gyflwyno eu ffurflenni cais am gostau, wedi eu cwblhau ar gyfer costau teithio a chynhaliaeth am bob mis calendr, i'r Swyddog Cyswllt Aelodau ym Mhencadlys y Gwasanaeth erbyn y 5$^{ed}$ o'r mis dilynol er mwyn sicrhau taliad y mis hwnnw.

9.2 Rhaid cyflwyno ceisiadau am gostau o fewn tri mis i ddiwedd y mis dan sylw. Gall y Trysorydd, wedi ymgynghori â Chadeirydd yr Awdurdod, dderbyn cais hwyr am reswm da a gwneud y taliadau perthnasol.

10. **Hawliadau Deuol**

10.1 Pan fydd Aelod o'r Awdurdod hefyd yn gallu hawlio lwfansau fel Aelod o Awdurdod arall, ni all yr Aelod hwnnw dderbyn unrhyw lwfans gan fwy nag un Awdurdod am yr un dyletswyddau, teithio neu gynhaliaeth.

11. **Hawl i Dynnu Lwfansau yn ôl neu Ofyn am Ad-daliad**

11.1 Pan fydd Aelod wedi ei wahardd neu wedi ei wahardd yn rhannol o'i ddyletswyddau fel Aelod o'r Awdurdod yn unol â Rhan III o Ddeddf Llywodraeth Leol 2000 neu Reoliadau a wnaed dan y Rhan honno, bydd yr Awdurdod yn atal y rhan honno o'r Lwfans Awdurdod Tân a/neu Lwfans Cadeirydd Awdurdod Tân neu Lwfans Is-Gadeirydd Awdurdod Tân a lwfans teithio a chynhaliaeth y gall ei hawlio am gyfnod y gwaharddiad neu'r gwaharddiad rhannol.

11.2 Yn yr amgylchiadau a amlinellir ym mharagraff 11.1, neu os bydd Aelod yn peidio â bod yn Aelod o'r Awdurdod, neu os nad yw, mewn unrhyw ffordd arall, â hawl i dderbyn lwfans am unrhyw gyfnod penodol, bydd yr Awdurdod yn gofyn i ran o'r fath o'r lwfans sy'n ymwneud â chyfnod o'r fath, gael ei ad-dalu iddo.

12. **Hawliad Rhan o Flwyddyn**

12.1 Bydd darpariaethau'r paragraff hwn yn cael effaith i reoleiddio'r hawliadau i Lwfans Awdurdod Tân, Lwfansau Cadeirydd Awdurdod Tân ac Is-Gadeirydd Awdurdod Tân pryd, yn ystod blwyddyn:

(a) Y caiff y Cynllun hwn ei ddiwygio; neu

(b) Y bydd y person hwnnw yn dod neu'n peidio â bod yn Aelod; neu

(c) Y bydd Aelod yn dod neu'n peidio â bod yn Gadeirydd neu'n Is-Gadeirydd.

12.2 Lle mae paragraff 12.1 yn berthnasol, bydd yr hawl i Lwfansau'n cael ei addasu yn ddyddiol yn unol â'r Rheoliadau.



DRAFT

13. **Gweinyddu**

13.1 Bydd y Trysorydd i'r Awdurdod yn cadw, ar ran yr Awdurdod, gofnod o'r holl daliadau a wneir dan y Cynllun hwn, a fydd yn nodi am bob taliad, enw'r derbynnydd a swm a natur y taliad. Bydd y cofnod hwn ar gael ar bob adeg resymol i'w archwilio gan etholwyr llywodraeth leol yn yr Awdurdodau cyfansoddol yn ddi-dâl. Darperir copïau ar gais am ffi rhesymol a benderfynir gan y Trysorydd.

13.2 Gwneir trefniadau'n flynyddol i gyhoeddi'r taliadau a wnaed yn y flwyddyn ariannol flaenorol i Aelodau o safbwynt Lwfans Awdurdod Tân, Lwfansau Cadeirydd Awdurdod Tân ac Is-Gadeirydd Awdurdod Tân.

14. **Adolygu'r Lwfansau**

14.1 Bydd y Lwfans Awdurdod Tân, Lwfansau Cadeirydd Awdurdod Tân ac Is-Gadeirydd Awdurdod Tân sy'n daladwy dan y cynllun hwn yn cael ei addasu o 1af Ebrill 2006 ac o 1af Ebrill ym mhob blwyddyn wedi hynny yn unol â Rheoliad 6 yn y Rheoliadau.

15. **Adolygu neu Ddirymu'r Cynllun**

15.1 Dim ond yn unol â darpariaethau'r Rheoliadau perthnasol y gall y cynllun hwn gael ei ddiwygio neu ei ddirymu gan yr Awdurdod.

DRAFT

**ATODLEN 1**

# DYLETSWYDDAU CYMERADWYEDIG

At ddibenion paragraff 6 o Gynllun yr Awdurdod ar gyfer Talu Lwfansau i Aelodau, caiff y canlynol ei ystyried yn ddyletswyddau cymeradwyedig:

- Cyfarfodydd yr Awdurdod.
- Cyfarfodydd Pwyllgorau, Panelau a Gweithgorau'r Awdurdod.
- Unrhyw gyfarfod arall a elwir gan yr Awdurdod (neu gan y Cadeirydd neu'r Is-Gadeirydd mewn achosion brys) y gwahoddir yr Aelodau iddo.
- Cyfarfodydd rhwng Cadeirydd a/neu Is-Gadeirydd yr Awdurdod a Chadeiryddion a/neu Is-Gadeiryddion Pwyllgorau'r Awdurdod a/neu swyddogion yr Awdurdod neu'r Gwasanaeth neu awdurdodau neu wasanaethau tân eraill i drafod busnes yr Awdurdod, gan gynnwys at ddiben agor tendrau.
- Mynychu digwyddiadau GTAGC, lle gofynnir yn benodol i Aelodau fynychu.
- Mynychu cyfarfodydd Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru/y Gymdeithas Llywodraeth Leol (gan gynnwys cyfarfodydd llawn a Grwpiau Polisi) gan yr Aelodau penodedig.
- Cyfarfodydd a drefnir gan yr Awdurdod gyda Gweinidogion a/neu swyddogion y Llywodraeth ar fusnes yr Awdurdod.
- Mynychu Cynhadledd Flynyddol Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru/Cynhadledd Tân Flynyddol y Gymdeithas Llywodraeth Leol gan y Cadeirydd neu'r Is-Gadeirydd neu unrhyw Aelod arall a awdurdodir yn benodol gan yr Awdurdod.
- Mynychu unrhyw gyfarfodydd, grwpiau, seminarau, cynadleddau, cyrsiau neu ymweliadau eraill ar faterion yr Awdurdod, ac, yn ddibynnol ar gymeradwyaeth yr Awdurdod o flaen llaw (neu'r Cadeirydd neu'r Is-Gadeirydd mewn achosion brys), ar gyfer mynychu digwyddiadau allanol neu unigol.
- Cyfarfodydd cyrff (heblaw am y rhai a nodir uchod) y mae'r Awdurdod wedi penderfynu gwneud penodiadau neu enwebiadau arnynt.
- Cyflawni unrhyw ddyletswydd arall y mae'r Awdurdod wedi ei gymeradwyo o flaen llaw, neu unrhyw ddyletswydd o ddosbarth a gymeradwywyd, at ddiben cyflawni swyddogaethau'r Awdurdod, neu mewn cysylltiad â hynny.
- Cyfarfodydd a drefnwyd o flaen llaw trwy'r Swyddog Cyswllt Aelodau gan Aelodau i orsafoedd tân yn y Sir neu'r Bwrdeistref Sirol y maent yn Aelod ohonynt.

DRAFT

**ATODLEN 2**

# TEITHIO A CHYNHALIAETH

**TEITHIO**

**Car**

| | |
|---|---|
| Lwfans milltiroedd | **40c** |
| Lwfansau am gludo teithwyr (rhaid bod wedi cludo teithiwr i hawlio hyn) | **5c** |

**Beic**

| | |
|---|---|
| Lwfans milltiroedd | **20c** |

**Trên**

Gall aelodau hawlio:

- Cost y tocyn dosbarth cyffredin isaf sydd ar gael yn rhesymol;
- Costau cadw lle a chadw bagiau;
- Costau mynd i'r orsaf /ac o'r orsaf; a
- Tocyn dosbarth cyntaf arbennig pan fo'r gost yn rhesymol o'i chymharu â chost tocyn dosbarth cyffredin.

**Tacsi**

Gall aelodau hawlio:

- Cost a childwrn rhesymol pan fo angen teithio AR FRYS neu pan nad oes trafnidiaeth gyhoeddus ar gael yn rhesymol; a
- Cost trafnidiaeth gyhoeddus priodol (e.e. tocyn bws) mewn achosion eraill.

Gellir hawlio treuliau ychwanegol am wir gost parcio.

| **CYNHALIAETH** | **£** |
|---|---|
| **Brecwast (pan nad oes angen aros dros nos)**<br>Yn daladwy am absenoldeb o gartref am o leiaf 4 awr, cyn 11 y bore. | **6** |
| **Cinio**<br>Yn daladwy am absenoldeb o gartref am o leiaf 4 awr, gan gynnwys y cyfnod rhwng hanner dydd a 2 y prynhawn yn llawn. | **8** |
| **Swper gyda'r nos**<br>Yn daladwy am absenoldeb o gartref am o leiaf 4 awr, gan orffen wedi 7 yr hwyr. | **18** |

DRAFT

**Dros nos**

Gellir hawlio pan fyddwch yn absennol dros nos o'ch preswylfa arferol am dros 24 awr. Dyma'r mwyafsymiau am wely a brecwast:

| | £ |
|---|---|
| • Ymweliadau â Llundain a phrifddinasoedd eraill | **120** |
| • Pob achos arall | **90** |
| • Costau 'Allan o Boced' am aros dros nos (mae hyn yn agored i gael ei drethu ym mhob achos) | **15** |

**LWFANS AWDURDOD TÂN**

Y Lwfans ar gyfer Aelodau Awdurdod Tân yw **£505** am 2004/05 a **£1,002** am 2005/06, a chaiff ei dalu drwy randaliadau misol.

**LWFANSAU CADEIRYDD AWDURDOD TÂN AC IS-GADEIRYDD AWDURDOD TÂN**

Caiff y Lwfansau canlynol eu talu trwy randaliadau misol:

| | 2004/05 | 2005/06 |
|---|---|---|
| Cadeirydd yr Awdurdod Tân | **£4,591** | **£9,108** |
| Is-Gadeirydd yr Awdurdod Tân | **£3,529** | **£7,000** |

**SUT A PHRYD I HAWLIO**

Dylid cyflwyno ceisiadau am lwfansau teithio a chynhaliaeth i'r Swyddog Cyswllt Aelodau, a rhaid iddynt ymwneud â dyletswyddau cymeradwyedig a gyflawnwyd (gweler Atodlen 1 am fanylion). Bydd ceisiadau'n cael eu talu'n uniongyrchol i gyfrifon banc yr Aelodau yn fisol.

Rhaid gwneud ceisiadau ar ffurflenni hawlio Lwfansau'r Aelodau, ac mae copïau o'r rheini ar gael gan y Swyddog Cyswllt Aelodau.

Dylid llenwi'r ffurflenni cais am bob mis calendr y cafwyd y treuliau, a'u hanfon i'r Swyddog Cyswllt Aelodau **heb fod yn hwyrach na'r 5ed o'r mis canlynol er mwyn sicrhau taliad yn y mis hwnnw.** Rhaid cyflwyno'r ceisiadau o fewn tri mis o ddiwedd y mis dan sylw. Gall y Trysorydd, wedi ymgynghori â'r Cadeirydd, dderbyn cais hwyr am reswm da a gwneud y taliadau perthnasol.

Dyma'r cyfeiriad llawn ar gyfer anfon ffurflenni cais am gostau:

**Swyddog Cyswllt Aelodau**
**Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru**
**Pencadlys y Gwasanaeth Tân ac Achub**
**Ffordd y Glannau**
**Y RHYL**
**Sir Ddinbych**
**LL18 3PL**



DRAFT